CYNGOR GWYNEDD
ADRAN 28 A 29 DEDDF SAFONAU A FFRAMWAITH YSGOLION 1998

RHYBUDD O GYNNIG I GAU YSGOLION GROESLON, CARMEL A BRONYFOEL A SEFYDLU YSGOL ARDAL YN GROESLON

RHODDIR DRWY HYN RYBUDD yn unol ag adrannau 28(1) a 29(1) o'r Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 a Rheoliadau Addysg (Cynigion Trefniadaeth Ysgolion) (Cymru) 1999 (S.I 1999/1671) fod Cyngor Gwynedd ar ôl cynnal ymgynghoriad yn unol ag Adran 28(5) a 29(4) o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn cynnig:

(a) cau YSGOL GROESLON, Groeslon, Caernarfon LL54 7DT, YSGOL CARMEL, Carmel, Caernarfon, LL54 7AA, ac YSGOL BRONYFOEL, Y Fron, Caernarfon, LL54 7BB ar **31 Awst 2015**. Bwriedir i'r disgyblion fydd yn mynychu'r ysgolion ar y pryd fynychu'r ysgol ardal arfaethedig yn Groeslon.

(b) i sefydlu un Ysgol Ardal ar **1 Medi 2015** ar safle presennol Ysgol Groeslon, Groeslon, Caernarfon LL54 7DT.

Bydd yr ysgol ardal arfaethedig yn Ysgol Gymuned i enethod a bechgyn 3 i 11 oed. Bwriedir adeiladu ysgol ardal newydd gyda chynhwysedd ar gyfer 172 o ddisgyblion gyda darpariaeth feithrin gyfwerth â 12 lle llawn amser. Nifer y disgyblion i'w derbyn yn 4 oed o 1 Medi 2015 fydd 24.

Yr awdurdod mynediad ar gyfer yr ysgol ardal arfaethedig fydd Cyngor Gwynedd a bydd disgyblion yn cael eu derbyn yn unol â Pholisi Mynediad yr Awdurdod. Bydd y trefniadau mynediad i'r ysgol newydd yn cael eu gwneud heb gyfeiriad at allu neu fedr (bandio disgyblion).

Bydd cludiant yn cael ei ddarparu i ddisgyblion sy'n byw yn nalgylchoedd yr ysgolion yn unol â Pholisi Cludiant Ysgolion y Cyngor.

Gall unrhyw berson wrthwynebu'r cynigion o fewn cyfnod o un mis ar ôl dyddiad cyhoeddi'r rhybudd yma, hynny yw erbyn **08 Gorffennaf 2013** ("Cyfnod Gwrthwynebu") drwy anfon gwrthwynebiadau i sylw Pennaeth Addysg, Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH.

Bydd y Cyngor yn anfon unrhyw wrthwynebiadau a dderbynnir o fewn y Cyfnod Gwrthwynebu, ynghyd â'i ymateb i'r gwrthwynebiadau, at Weinidogion Cymreig o fewn pythefnos ar ôl i'r Cyfnod Gwrthwynebu ddod i ben.

Bydd y cynigion (os na fydd yn cael eu tynnu nôl) angen cymeradwyaeth y Gweinidogion Cymreig petai:
(a) Gweinidogion Cymru yn rhoi rhybudd o fewn 2 fis wedi i gopi o'r cynigion gael eu hanfon atynt y bydd angen cymeradwyaeth o'r fath neu,
(b) fod gwrthwynebiadau wedi eu gwneud o fewn y Cyfnod Gwrthwynebu a heb eu tynnu yn ôl o fewn y cyfnod.

Ble nad oes angen cymeradwyaeth o'r fath bydd Cyngor Gwynedd yn penderfynu gweithredu'r cynigion ai peidio.

Dyddiad Cyhoeddi **06 Mehefin 2013**

Dewi R Jones
Pennaeth Addysg, Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH

Am fwy o fanylion ynglŷn â'r uchod ffoniwch yr Adran Addysg, 01286 679247

NODYN ESBONIADOL
(Nid yw'r isod yn rhan o'r rhybudd ond mae'n cynnig esboniad o'i bwrpas)
Yn dilyn ymgynghori, argymhellodd Cyngor Gwynedd agor ysgol gynradd gymuned ar 1 Medi 2015 i wasanaethu ardal Groeslon, Carmel a Fron. Er mwyn i hyn ddigwydd cynigir bod Ysgolion Groeslon, Carmel a Bronyfoel yn cau 31 Awst 2015. Bydd disgyblion sy'n byw yn y dalgylchoedd hyn yn cael cynnig lle yn yr ysgol ardal newydd fydd wedi ei lleoli yn Groeslon.

GWYNEDD COUNCIL
SCHOOL STANDARDS AND FRAMEWORK ACT 1998 SECTIONS 28 AND 29

NOTICE OF PROPOSALS TO DISCONTINUE GROESLON, CARMEL AND BRONYFOEL SCHOOLS AND ESTABLISH AN AREA SCHOOL IN GROESLON

NOTICE IS HEREBY GIVEN in accordance with sections 28(1) and 29(1) of the School Standards and Framework Act 1998 and the Education (School Organisation Proposals) (Wales) Regulations 1999 (S.I. 1999/1671) that Gwynedd Council, having consulted in accordance with Section 28(5) and 29(4) of the School Standards and Framework Act 1998 propose:

(a) to discontinue YSGOL GROESLON, Groeslon, Caernarfon LL54 7DT, YSGOL CARMEL, Carmel, Caernarfon, LL54 7AA, and YSGOL BRONYFOEL, Y Fron, Caernarfon, LL54 7BB, on **31 August 2015**. It is intended that pupils attending these schools at the time will thereafter attend the proposed area school in Groeslon.

(b) to establish an Area School on **1 September 2015** on the current site of Ysgol Groeslon, Groeslon, Caernarfon LL54 7DT.

The proposed area school will be a Community School for boys and girls between the ages of 3 and 11. It is intended to build the new area school with a capacity of 172 pupils with nursery provision for 12 full time equivalent places. The number of pupils to be admitted at age 4 from 1 September 2015 will be 24.

The admission authority for the proposed area school will be Gwynedd Council and pupils will be admitted in accordance with the Authority's Admission Policy. The admission arrangements for the new school will not make provision for selection by aptitude or ability (pupil banding).

Transport will be provided to pupils resident in the catchment areas of the schools in accordance with the Council's School Transport Policy.

Any person may object to these proposals within a period of one month after the date of publication of this proposal, that is to say by **08 July 2013** ("the Objection Period"). Objections should be sent to the Head of Education, Gwynedd Council, Shirehall Street, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH.

The Council will send copies of any objections made within the objection period, together with their response to the objections, to the Welsh Ministers within two weeks after the Objection Period closes

The proposals will (unless withdrawn) require the approval of the Welsh Ministers if
(a) within 2 months after a copy of them is sent to the Welsh Ministers it gives notice that they require such approval; or
(b) objections have been made within the objection period and have not been withdrawn during that period.

Where the proposals do not require such approval, Gwynedd Council will decide whether to implement them.

Publication Date **06 June 2013**

Dewi R Jones
Head of Education, Gwynedd Council, Shirehall Street, Caernarfon, Gwynedd. LL55 1SH

For more information regarding the above telephone the Education Department, 01286 679247

EXPLANATORY NOTE
(The following is not part of the notice but is intended to explain its general purpose)
Following consultation Gwynedd Council proposes to open an area community primary school on 1 September 2015 to serve the Groeslon, Carmel and Fron area. In order for that to happen it is proposed that Groeslon, Carmel and Bronyfoel schools close on 31 August 2015. Pupils resident in those catchment areas will be offered places at the new area school located in Groeslon.